COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MAWRTH, 6 CHWEFROR 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Jane Gebbie – Buddiant Personol – Cadeirydd Rhaglen Gyfalaf Mynydd Cynffig
Y Cynghorydd JP Bludnell – Personol – Llywodraethwr Rhaglen Gyfalaf Ysgol Gyfun Bryntirion

**289. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion 16/01/2024 fel cofnod cywir a gwir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

**290. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28 a Phroses Ymgynghori Cyllideb Drafft.**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid Perfformiad a Newid yr adroddiad i'r Cabinet ac roedd wedi gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) mewn perthynas â'r canlynol:<br><br>a) Adroddiad y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft;<br><br>b) Y sylwadau a'r argymhellion gan y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft, gan gynnwys y pwysau arfaethedig ar y gyllideb a'r cynigion i leihau'r gyllideb, fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb<br><br>Cyflwynodd Cadeirydd COSC y canfyddiadau i'r Cabinet, a oedd yn cynnwys yr argymhellion a'r sylwadau gan y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu amrywiol. Roedd y rhain wedi'u hymgorffori'n llawn yn Atodiad A a B yr adroddiad.<br><br>Diolchodd yr Arweinydd i bawb a gymerodd ran a'r oriau hir a dreuliwyd yn darparu gwaith craffu gwerthfawr i'r MTFS a'r gyllideb ddrafft. Bydd y Cabinet yn edrych ar yr argymhellion a byddant yn cael ystyriaeth briodol cyn eu cyflwyno yn ôl i'r Cyngor.<br><br>Adleisiodd yr Aelod Cabinet Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol y sylwadau hyn a phwysleisiodd mai dim ond rhan fechan iawn oedd yr adroddiad hwn o'r amser a gwaith sydd wedi mynd i mewn i hyn, felly diolchodd i'r Cynghorydd Williams a'r pwyllgorau craffu am eu gwaith caled.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Derbyniodd y Cabinet argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol gan y Cynghorydd Alex Williams, mewn ymateb i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28 a'r Broses Ymgynghori Cyllideb Ddrafft. Nododd y Cabinet yr argymhellion a bydd yn ymateb yn dilyn y cyfnod ymgynghori. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

## 291. Diweddariad Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn diweddaru’r Cabinet ar y cyllidebau cyfalaf a'r gwariant ar 31 Rhagfyr 2023, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 i 2032-33 a'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24<br><br>Esboniodd fod Tabl 1 yn yr adroddiad yn dangos y rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o sefyllfa gymeradwy y Cyngor ym mis Hydref 2023 hyd Chwarter 3.<br><br>Roedd Tabl 2 yn crynhoi’r rhagdybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24. Mae'r adnoddau cyfalaf yn cael eu rheoli i sicrhau cyflawni’r budd ariannol mwyaf posibl i'r Cyngor.<br><br>Mae Atodiad A yn rhoi manylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, amlinellodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y cynlluniau a nodwyd sy'n gofyn am lithro i'r blynyddoedd sydd i ddod. Nodwyd y rhain yn adran 3.1.4 o'r adroddiad.<br><br>Ynghlwm yn Atodiad B oedd y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, gydag Atodiad C yn nodi manylion y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2022-23.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol a fyddai modd darparu mwy o wybodaeth ar gerbydau fflyd, gan fod llithriad wedi'i nodi yma. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, o ystyried y sefyllfa ariannol anodd mae awdurdodau lleol ynddi ar hyn o bryd, y gallai fod yn ddoeth adolygu'r maes hwn a sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y dyfodol, gan ystyried Strategaeth Carbon Niwtral 2030 yn ogystal â'r hinsawdd ariannol. |

| | |
|---|---|
| | Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod grantiau wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol i ariannu'r newid cerbydau o betrol i drydan, a'i fod yn gobeithio y bydd cyllid ar gael eto yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet<br>• yn nodi diweddariad Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2023-24 Chwarter 3 hyd at 31 Rhagfyr 2023 (Atodiad A).<br>• yn cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w chymeradwyo.<br>• yn nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24 (Atodiad C). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

## 292. Adroddiad Chwarter 3 Rheoli'r Trysorlys 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn diweddaru'r Cabinet ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2023.<br><br>Dywedodd fod chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 3.9% ym mis Tachwedd o'r mis blaenorol lle'r oedd yn 4.6%, ond yna fe gynyddodd yn annisgwyl er mai o ychydig yn unig i 4% ym mis Rhagfyr.<br><br>Dangoswyd crynodeb o weithgarwch rheoli'r trysorlys yn adroddiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn Atodiad A.<br><br>Fe wnaeth y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid amlygu Tabl 1 i'r Aelodau a oedd yn amlinellu sefyllfa ddyled a buddsoddiad allanol y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2023. Dywedodd na ddylai fod angen i'r Cyngor fenthyca yn y flwyddyn ariannol bresennol, ond pe bai cyfle i aildrefnu benthyciadau ar gyfradd ffafriol byddai'r Cyngor yn ceisio gwneud hynny. |

| | |
|---|---|
| | Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol fod ein prif fuddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol. O ystyried natur anwadal cyllid Llywodraeth Leol, pa mor aml ydym ni'n gofyn am gyngor gan ein hymgynghorwyr proffesiynol allanol. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid sicrwydd ein bod ni fel Cyngor yn ofalus lle rydym ni'n rhoi ein harian a bydd ein hymgynghorwyr yn darparu bwletinau rheolaidd sy'n amlinellu unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Rydym hefyd yn cysylltu â nhw pryd bynnag y byddwn yn bwriadu gwneud buddsoddiadau i sicrhau ein bod ni'n ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf a sicrhau bod y buddsoddiadau yn gadarn.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd pe bai gofyn i Awdurdod Lleol gyhoeddi hysbysiad Adran 114, y byddai dal yn ofynnol iddynt dalu eu dyledion ac ar y nifer fach o weithiau mae'r rhain wedi cael eu cyhoeddi, dyma oedd y sefyllfa erioed.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi gweithgarwch rheoli'r trysorlys ar gyfer 2023-24 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023<br><br>• Yn nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

**293. Sefydlu Corff Llywodraethol Cysgodol a Phenodi Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o sefydlu corff llywodraethu cysgodol (SGB) yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr fel rhan o'r broses o drosglwyddo o'r bwrdd gweithredol interim (IEB) yn ôl i gorff llywodraethu llawn a;<br><br>gofynnodd am gymeradwyaeth gan y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdodau lleol i gyrff |

| | |
|---|---|
| | llywodraethu'r ysgolion a restrir ym mharagraff 3.2.<br><br>Dywedodd fod recriwtio wedi dechrau ar gyfer y grwpiau gorfodol o lywodraethwyr i gorff llywodraethu cysgodol a fydd yn cael ei sefydlu ar 29 Chwefror 2024.<br><br>Roedd tair swydd wag llywodraethwyr awdurdod lleol yn yr ysgol a nodwyd yn y tabl sef 3.2 o'r adroddiad. Roedd yr ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymeradwy i'w penodi fel llywodraethwr awdurdod lleol ac nid oedd cystadleuaeth am y swyddi gwag.<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cabinet yn nodi'r newid gweithdrefnol o Fwrdd Gweithredol Interim i Gorff Llywodraethol Cysgodol yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr ac i gymeradwyo'r penodiadau a nodir ym mharagraff 3.2; gan nodi'r diwygiad i enw'r Cynghorydd Della Hughes. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

## 294. Adroddiad Gwybodaeth ar gyfer Nodi

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o'r Adroddiad Gwybodaeth ar gyfer nodi a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf.<br><br>PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

## 295. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim Eitemau Brys |

**CABINET - DYDD MAWRTH, 6 CHWEFROR 2024**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 06 Chwefror 2024 |

I weld trafodaethau pellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 15:38